



Adroddiad ar

**Ysgol Ardudwy
Ffordd Y Traeth
Harlech
Gwynedd
LL46 2UH**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012

gan

Mr Gwyn Thomas

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/12

Cyd-destun

Mae Ysgol Ardudwy yn ysgol gyfun gymunedol naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn ne orllewin y sir a gaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Gwynedd. Gwasanaetha'r ysgol gymunedau arfordirol Penrhyndeudraeth, Harlech ac Abermaw a'r pentrefi gwledig cyfagos. Mae'n ardal amrywiol ei heconomi. Diwydiannau megis ffermio a thwristiaeth sydd yn y cylch ond bu dirywiad yn y diwydiant ffermio mewn blynyddoedd diweddar a bellach nid oes cyflogwyr mawr yn yr ardal.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o bob gallu.

Mae 330 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2006, roedd 380 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Mae gan yr ysgol gyfwerth â 26.1 o staff addysgu amser llawn.

Yn 2011-2012, roedd gan 10.09% o'r disgyblion yr hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.4%.

Mae'r ganran o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer 2012 yn 9.2% sydd yn sylweddol uwch na chyfartaledd yr Awdurdod. Mae 23.5% pellach angen cymorth ychwanegol. Canran y disgyblion o oed ysgol gorfodol sydd ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig yw 32.7% sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20.2%.

Daw oddeutu 40% o'r disgyblion o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg ond mae 84% yn siarad Cymraeg i safon mamiaith drwy'r ysgol. Dim ond 1.0% sy'n dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig.

Penodwyd y pennaeth i ddechrau ei swydd ym Medi 1990.

Mae'r ysgol yn anelu at sicrhau addysg o'r safon uchaf bosibl i bob disgybl a'u harwain i ddatblygu i fod yn unigolion cyfrifol ac aeddfed, fel y gallant fod yn aelodau llawn a gweithredol o gymdeithas ddwyieithog.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Ardudwy yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £5098 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5098 a'r lleiafswm yw £3942. Mae Ysgol Ardudwy yn safle cyntaf o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

**Perfformiad presennol yr ysgol
Rhagolygon gwella'r ysgol**

**Anfoddhaol
Digonol**

Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- gwelliant cyson ym mherfformiad y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3;
- yn y gymhariaeth â'r canlyniadau yn y cyfnod allweddol blaenorol, gwelliant yn yr holl ddangosyddion sy'n cynnwys yr ystod o gymwysterau ehangach;
- safonau cyson dda yn y Gymraeg o'i gymharu ag ysgolion tebyg yng nghyfnod allweddol 4, ynghyd â safon uchel o ddwyieithrwydd yn ogystal ag ymwybyddiaeth gref o Gymreictod;
- pob disgybl yn gadael gyda chymhwyster cydnabyddedig;
- ymddygiad ardderchog y disgyblion a dim gwaharddiadau parhaol ers pum mlynedd;
- ethos cynhwysol, gofalgar yr ysgol ynghyd â chyfundrefn fugeiliol effeithiol; a
- phartneriaethau effeithiol.

Barnwyd bod cynnydd presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- perfformiad yn Saesneg yng nghyfnod allweddol 3 sy'n cymharu'n anffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg dros y pum mlynedd diwethaf;
- perfformiad anfoddhaol yn nifer o'r dangosyddion allweddol (yn benodol trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu'r Gymraeg, mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd) yng nghyfnod allweddol 4 sy'n parhau i fod yn sylweddol is na pherfformiad ysgolion tebyg;
- perfformiad anfoddhaol ym mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4, dros gyfnod o bedair blynedd, sy'n sylweddol is na pherfformiad ysgolion tebyg;
- diffyg her mewn lleiafrif o wersi;
- effaith datblygu rhai o'r sgiliau ar draws y cwricwlwm sydd heb ddylanwadu'n ddigonol ar godi safonau; a
- chanrannau presenoldeb sydd islaw ysgolion tebyg.

Rhagolygon gwella

Barnwyd bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- gweledigaeth glir y pennaeth a'r dirprwy i godi safonau;
- gwelliant yn safonau cyfnod allweddol 3 yn 2012;
- safon cymwysterau galwedigaethol da;
- canrannau disgyblion sy'n ennill graddau A*-C mewn Saesneg a gwyddoniaeth wedi codi'n sylweddol o'u cymharu â 2011 (yn sgil canlyniadau modiwlau sydd eisoes wedi'u dyfarnu 2012); a
- safonau darllen yn gwella.

Fodd bynnag :

- nid yw rôl rhai rheolwyr canol wedi'i ddatblygu'n ddigonol;
- mae diffyg cysondeb yng nghynlluniau datblygu adrannau;
- mae lleiafrif o wersi o safon foddhaol yn unig; ac
- nid yw'r ysgol wedi ymateb yn llawn i holl argymhellion yr arolwg diwethaf.

Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Ardudwy:

- A1 codi safonau a gwella perfformiad mewn Saesneg a'r rhan fwyaf o'r pynciau sylfaen sydd yn is na'r safon mewn ysgolion tebyg yng nghyfnod allweddol 3;
- A2 codi safonau a gwella perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4 a gwella'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd;
- A3 gwella'r ddarpariaeth a'r cynnydd a wna'r disgyblion yn y medrau gan ganolbwyntio'n benodol ar lythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol;
- A4 codi safonau'r addysgu o ddigonol i dda neu well gan gynnwys arsylwi gwersi a monitro ansawdd;
- A5 gwella cysondeb ac ansawdd y marcio ar draws yr ysgol; a
- A6 chryfhau rôl ac atebolrwydd rheolwyr canol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â threfn Deddf Addysg 2005 mae PAEM o'r farn fod angen gwella'r ysgol hon yn sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Anfoddhaol

Safonau: Anfoddhaol

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella yn yr holl ddangosyddion ac mae bellach yn agos i'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn Saesneg wedi bod yn llawer is na'r cyfartaledd am bum mlynedd. Nid yw perfformiad ar y lefelau uwch mor gryf. Mae perfformiad ym mron yr holl bynciau anghraidd yn uwch yn 2011 nag yn 2008. Fodd bynnag, mae'n llawer is na pherfformiad ysgolion tebyg. Yn 2011, mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol wedi gwella ac yn dda i dda iawn.

Yng nghyfnod allweddol 4 dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi amrywio ac yn is neu gan amlaf yn llawer is na'r cyfartaledd o'i gymharu gyda pherfformiad ysgolion tebyg. Roedd canlyniadau 2011 yn is na rhai 2008. Mae perfformiad yn y dangosyddion sydd yn cynnwys amrediad eang o gymwysterau wedi bod yn bennaf is yn 2011 o'i gymharu â 2008. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn llawer is nag mewn ysgolion tebyg am bedair blynedd ac am dair blynedd o ran Saesneg. Mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod yn dda. Yn gyffredinol, roedd perfformiad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2011 yn dda iawn.

O gymharu â'u perfformiad yn y cyfnod allweddol blaenorol, mae cynnydd disgyblion yn gwella yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau. Fodd bynnag, yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae cynnydd wedi bod yn gyson wael.

Dros y tair blynedd diwethaf, gadawodd yr holl ddisgyblion gyda chymhwyster ac roedd cyfran uchel wedi parhau i addysg lawn-amser ar ôl 16. Ni adroddir fod unrhyw ddisgybl a adawodd yr ysgol yn 16 ddim mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yn gyffredinol, yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, dim ond ychydig o wahaniaethau arwyddocaol sydd ym mherfformiad y bechgyn a'r merched. Yng nghyfnod allweddol 3, yn gyffredinol, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched yn y dangosydd pynciau craidd. Yng nghyfnod allweddol 4, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched yn 2010 yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2009 a 2010, perfformiodd disgyblion oedd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn well na'r disgyblion hynny oedd heb yr hawl. Maent yn perfformio'n well na disgyblion tebyg o'u cymharu â chyfartaleddau'r teulu a'r rhai cenedlaethol. Yng nghyfnod allweddol 4, nid yw disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'r disgyblion hynny sydd heb yr hawl. O gymharu perfformiad disgyblion tebyg yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, mae perfformiad yn is na chyfartaleddau'r teulu.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn ôl y disgwyl gyda'r disgyblion mwy galluog yn tangyflawni yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 4.

Yn gyffredinol, mae'r cynnydd a wneir gan lawer o ddisgyblion yn y mwyafrif o wersi yn dda. Mae'r disgyblion hyn yn cymhwyso'r hyn a ddysgwyr yn flaenorol yn dda ac yn ei ddefnyddio i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwranddo'n dda ar eu hathrawon ac ar ei gilydd ac yn siarad yn eglur. Fodd bynnag, mae llawer yn ymateb i gwestiynau'r athrawon gydag atebion byr. Mae safonau darllen yn gwella ar y cyfan. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn hyderus a chyda mynegiant. Maent yn gallu dynodi'r prif nodweddion mewn testunau i gefnogi eu safbwyntiau. Mae disgyblion sydd yn derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer darllen yn gwneud cynnydd da, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio terminoleg pwnc-benodol yn dda yn y dosbarth.

Ysgrifenna'r mwyafrif o ddisgyblion baragraffau byr o ansawdd dda. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o lyfrau a welwyd, mae gwallau sillafu, atalnodi a gramadegol ac nid yw disgyblion yn cymryd digon o ofal gyda'u gwaith ysgrifenedig nac wrth lunio graffiau.

Nid yw disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio'u medrau rhifedd na datrys problemau yn ddigon da mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae ganddynt fedrau da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd yn gwella eu medrau cyflwyno ac ymchwil.

Mae canlyniadau mewn Cymraeg iaith gyntaf wedi bod yn gwella dros y tair blynedd diwethaf yng nghyfnod allweddol 3 ac maent bellach lawer yn uwch na'r cyfartaledd mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar lefel 6 ac uwch wedi amrywio ac, yn gyffredinol, yn is na'r cyfartaledd. Yng nghyfnod allweddol 4, er bod canlyniadau wedi bod yn amrywiol, maent yn gyson uwch na'r cyfartaledd o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae medrau dwyieithrwydd disgyblion yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn.

Lles: Da

Teimla bron yr holl ddisgyblion yn ddiogel yn yr ysgol a derbyniant gymorth personol da. Maent bron i gyd yn teimlo fod yr ysgol yn delio'n effeithiol gyda'r ychydig iawn o achosion o fwllian. Mae llawer yn deall pwysigrwydd byw yn iach gyda nifer fawr yn cymryd rhan mewn ymarfer trwy amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol yn ystod a thu allan i'r diwrnod ysgol.

Mae ymddygiad o amgylch yr ysgol ac yn y dosbarth yn dda iawn. Mae bron yr holl ddisgyblion yn ystyriol a chwrtais iawn. Dros y pum mlynedd diwethaf, ni waharddwyd unrhyw ddisgybl yn barhaol a dim ond un disgybl a gafodd waharddiad penodol.

Mae lefelau presenoldeb yn is na'r lefel presenoldeb a ddisgwylir. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae'r cyfraddau hyn yn y chwarter isaf ac yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ac yn is na chyfartaledd y teulu. Yn 2011, roedd presenoldeb yr un fath a chyfartaledd Cymru. Mae bron yr holl ddisgyblion yn brydlon i'w gwersi.

Nodwedd gref o'r ysgol yw bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Mae llawer yn cyfranogi'n llwyddiannus mewn prosiectau ac yn codi symiau sylweddol o arian ar gyfer elusennau yn flynyddol. Mae'r disgyblion hyn yn ennill lefelau gwerthfawr

iawn o brofiad ac o hyder. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau llais y dysgwr, gan gynnwys y prosesau o wneud penderfyniadau. Mae disgyblion ar draws pob oed yn gwneud cyfraniad cadarn i amryw agweddau o fywyd ysgol trwy weithgareddau'r cyngor ysgol.

Mae'r datblygiad o fedrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus mewn grwpiau. Mae eu medrau datrys problemau a'r rhai ar gyfer gwella dysgu eu hunain yn gadarn. Dangosant gryn ofal a chonsyrn tuag at eu cyfoedion. Mae'r broses o baratoi disgyblion ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol yn dda.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Digonol
--	----------------

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn diwallu anghenion a diddordebau'r disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod ehangach o opsiynau mewn partneriaeth â darparwyr eraill o fewn y Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r rhain yn cynnwys ystod helaeth o gyrsgiau sydd yn darparu cyfleoedd da ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Er bod graddau dilyniant a pharhad cyrsiau academiaidd yn gyfyngedig, mae'r ysgol yn darparu darpariaeth ychwanegol ar ôl ysgol er mwyn sicrhau fod disgyblion yn medru dilyn y pynciau ni ellir eu hygyrchu oddi fewn i oriau ysgol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau yng nghyfnod allweddol 3 yn amrywiol. Mae'r cynllunio i ddatblygu medrau cyfathrebu a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn y ddau gyfnod allweddol yn dda. Nid yw'r cynllunio ar gyfer medrau rhifedd wedi ei wreiddio'n ddigonol i mewn i brofiadau'r holl ddisgyblion mewn llawer o feysydd o'r cwricwlwm.

Mae medrau datrys problemau a gwella dysgu eu hunain yn ddigonol yn y ddau gyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu gweithio gydag eraill yn dda.

Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau'n ddigonol.

Mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol yn dda. Mae ymweliadau allanol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at wersi a gweithgareddau eraill, yn benodol addysg a phrofiadau'n gysylltiedig â gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae'r ethos Cymreig o fewn yr ysgol yn gryf ac mae'r dimensiwn Cymreig ar draws y cwricwlwm yn hyrwyddo agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith a hunaniaeth Gymreig. Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau ysgogol ar draws y cwricwlwm ar gyfer astudio'r amgylchedd lleol a hanes a diwylliant yr ardal.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ehangu eu gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â chynnaladwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn ddigonol ac yn datblygu.

Addysgu: Digonol

Yn y sampl bychan o wersi a arsylwyd, roedd yr addysgu yn dda yn y mwyafrif o wersi. Fodd bynnag, mae diffygion mewn lleiafrif.

Lle mae ansawdd yr addysgu yn dda, mae athrawon yn cynllunio'u gwersi'n ofalus ac mae amcanion y gwersi'n eglur.

Mae ystod dda o adnoddau, gan gynnwys technoleg gwybodaeth, yn cyfoethogi gweithgareddau a'r perthnasau cadarnhaol rhwng athrawon a dysgwyr yn cynnal y diddordeb. Yn yr enghreifftiau gorau, cynigia'r athrawon ddarpariaeth dda ar gyfer cynnwys agweddau penodol o fedrau allweddol o fewn gwersi.

Ceir cyflymder da i'r gwersi gyda heriau addas a darperir cyfleoedd niferus i ddisgyblion wella eu sgiliau o weithio mewn grwpiau.

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol da. Maent yn sicrhau fod disgyblion yn gwerthuso eu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol. Mae'r perthnasau gwaith rhwng holl aelodau staff yr ysgol â'r disgyblion yn dda iawn. Mae'r perthnasau hyn wedi eu seilio ar barch y naill at y llall.

Yn y lleiafrif o wersi lle mae diffygion, mae cyflymder y wers yn araf gyda gorddibyniaeth ar yr athro. Nid oes digon o her na digon o esboniadau o gysyniadau allweddol yn ystod y wers nac yn y sesiynau llawn.

Yn gyffredinol, mae ansawdd y marcio yn amrywio ar draws yr ysgol. Darperir gwybodaeth eglur yn cydnabod cryfderau ond nid yw ansawdd yr adborth bob amser yn darparu digon o arweiniad ar sut i wella. Ni chaiff gwallau sillafu a gramadeg eu nodi na'u cywiro ar bob achlysur.

Mae gallu disgyblion i asesu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cymheiriaid yn anghyson.

Ym Mlwyddyn 7, crëwyd gweithdrefn asesu newydd yn seiliedig ar ddisgrifyddion lefel y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r broses hon yn rhoi darlun llawn o gynnydd pob plentyn o fewn y lefelau hyn a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r nodwedd gadarnhaol hon yn y broses o gael ei fabwysiadu ar draws yr holl gyfnodau.

Er bod gan yr ysgol ddarpariaeth mentora effeithiol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4, nid yw effaith y strategaethau a ddefnyddir eto wedi effeithio'n ddigonol ar y safonau yn y pynciau craidd, ac eithrio Cymraeg.

Mae'r adroddiadau i rieni yn fanwl a llawn gwybodaeth. Mae'r adroddiadau bob hanner tymor yn amlinellu cynnydd ac mae targedau ar gyfer gwelliant yn nodwedd drawiadol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Ceir trefniadau effeithiol er mwyn annog a chynnal iechyd a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd gofalgwr lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Derbyniant arweiniad a chefnogaeth dda.

Mae'r amrywiol weithgareddau i hybu datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol yn dda.

Ceir cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau allanol er mwyn darparu amrediad o wasanaethau cefnogi ac arbenigedd.

Mae rhaglen sefydlu sydd wedi ei gynllunio'n dda yn darparu dilyniant a pharhad ar gyfer y disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgolion cynradd partner. Mae ansawdd y cyngor a'r arweiniad a rhoddir i ddisgyblion a'u rhieni am y cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 yn dda.

Darpara'r ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi ei gynllunio'n dda. Mae'r athrawon yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn eu cefnogi'n effeithiol. Trwy system fugeilio effeithiol, mae gan yr ysgol strwythur cefnogi da iawn i'r disgyblion.

Mae'r disgyblion hynny sydd yn derbyn cymorth pellach ar gyfer llythrennedd yn derbyn gwersi sydd wedi eu haddasu'n dda i ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at wella eu safonau darllen.

Oddi fewn i'r dosbarthiadau prif ffrwd, mae athrawon yn addasu tasgau a gweithgareddau'n dda er mwyn diwallu anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r weithdrefn ffurfiol o werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth hon yn ddigon cadarn.

Nid yw'r targedau i ddisgyblion o fewn y cynlluniau addysg unigol bob amser yn ddigon penodol. Ni ellir mesur cynnydd disgyblion yn briodol.

Mae'r cynorthwywyr dysgu yn darparu cefnogaeth dda ar gyfer disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn arddangos ethos Cymreig gofalgarg a chynhwysol lle mae aelodau'r staff a disgyblion yn dangos parch y naill at y llall a chonsyrn am bawb. Mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Mae'n sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn effeithiol.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar gampws lle mae'r adeilad o ansawdd dda. Mae'r dosbarthiadau, y labordai a'r cyfleusterau cyffredinol yn cynnig amgylchedd weithio da.

Gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r cyfleusterau drama yn dda. Mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol o ddefnyddio'r ganolfan hamdden sydd ar yr un safle.

Caiff yr adeiladau a'r tiroedd eu cynnal a'u cadw'n dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Digonol

Cyfeiriad strategol y pennaeth yw gwella safonau yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r amcan hwn wedi eu rhannu a'i fabwysiadu gan aelodau'r staff a'r llywodraethwyr. Caiff ei gefnogi'n fedrus gan y dirprwy bennaeth hynod effeithiol. I gefnogi eu bwriad o godi safonau, mae gan yr ysgol ystod addas o bolisiau a strategaethau. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar arfer cyfredol.

Nid oes digon o amser i'r uwch dîm rheoli ymgymryd â'i rôl yn llawn. Mae cyfrifoldebau'r aelodau yn rhy helaeth mewn ysgol o'r maint hwn. O ganlyniad, ceir diffyg grym mewn ychydig o feisydd o fonitro perfformiad.

Ceir disgrifiadau swydd manwl ar gyfer holl aelodau'r staff. Mae'r mwyafrif o gyfrifoldebau'r staff wedi eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar hyn o bryd, nid yw'r graddau mae rheolwyr canol wedi cyflawni eu rolau wedi ei ddatblygu'n llawn.

Mae'r uwch dîm rheoli wedi sefydlu cysylltiadau boddhaol gydag adrannau. Mae aelodau'n cefnogi adrannau oddi fewn i'r cyfyngiadau amser. Mae'r adolygiad blynyddol ym mis Medi yn gyfle gwerthfawr i'r uwch dîm rheol gael amser dynodedig er mwyn trafod cynnydd ac arfarnu canlyniadau arholiadau. Mae'r cymorth sydd wedi ei dargedu gan reolwyr uwch ar gyfer rhai adrannau gwannach wedi bod yn helaeth ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn 2012.

Defnyddia rheolwyr uwch a chanol wybodaeth am berfformiad disgyblion i fwydo eu strategaethau addysgu a chynllunio'n dda. Gosodir targedau realistig a chaiff adrannau eu herio'n briodol. Nid yw effaith y prosesau hyn wedi ei wireddu'n llawn mewn ychydig iawn o adrannau.

Mae rheoli perfformiad yn dynodi blaenoriaethau unigol ac ysgol-gyfan yn dda ac yn cyfrannu tuag at yr amrywiaeth o strategaethau a ddefnyddir i godi safonau a datblygu staff.

Mae'r llywodraethwyr yn deall eu rolau'n dda ac yn cyflawni eu gofynion statudol. Maent wedi annog a chefnogi'r berthynas glos gydag ysgol gyfagos er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae hwn yn nodwedd dda. Mae rôl y corff llywodraethu fel ffrind beirniadol yn gadarn.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae wedi rhagori ar ofynion Llwybrau Dysgu 14-19, yr Agenda Gweddnewid a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Fodd bynnag, mae ymateb yr ysgol i ofynion yr agenda sgiliau yn amrywiol.

Gwella ansawdd: Digonol

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen llawn gwybodaeth sydd yn gosod allan y cryfderau a'r meysydd ar gyfer datblygu yn eglur.

Mae'r gweithdrefnau hunan arfarnu wedi eu gwreiddio yn yr ysgol ac yn tynnu ar ystod briodol o ddata a thystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau gwers ac archwilio

gwaith disgyblion yn dymhorol. Mae cyfraniadau'r disgyblion trwy waith y cyngor ysgol a holiaduron adrannol ysbeidiol yn ddigonol. Rhydd yr ysgol ystyriaeth i safbwyntiau rhieni trwy holiaduron ac mae'n croesawu safbwyntiau busnesau lleol ac asiantaethau allanol.

Mae llawer o reolwyr canol yn arfarnu eu meysydd o gyfrifoldeb yn drylwyr. Fodd bynnag, nid yw ychydig o adroddiadau hunan arfarnu adrannol yn mynd i'r afael â thanberfformiad o fewn eu hadrannau.

Mae'r cyswllt rhwng hunan arfarnu'r ysgol a'r cynllun datblygu yn eglur. Ceir blaenoriaethau priodol yn y cynllun datblygu ysgol cynhwysfawr. Mae'r rhain yn ffocysu ar godi safonau, strategaethau ar gyfer gweithredu a meini prawf llwyddiant mesuradwy cadarn er mwyn cynllunio a sicrhau gwelliant. Mae'n dynodi'n eglur yr aelodau staff sydd yn arwain y mentrau hyn, yn amlinellu terfynau amser addas ac yn dynodi'r adnoddau angenrheidiol.

Amrywiol yw ansawdd y cynlluniau datblygu adrannol. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff strategaethau gweithredu trylwyr eu nodi ynghyd â thargedau realistig a heriol. Fodd bynnag, mewn ychydig o adrannau, mae diffyg cryfder priodol yn y cynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r rheolwyr uwch a chanol yn monitro'n gadarn. Defnyddir templed cyffredin gan bawb er mwyn sicrhau cysondeb.

Sicrha'r ysgol fod ystod eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol sydd wedi eu cysylltu â'r blaenoriaethau ysgol yn cymryd lle. Mae ethos gydweithredol sydd yn canolbwyntio ar rannu arfer da yn datblygu o fewn yr ysgol a chyda chydweithwyr mewn ysgolion cyfagos. Caiff llawer o aelodau staff gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol wedi sefydlu dwy gymuned ddysgu broffesiynol sydd yn ffocysu'n effeithiol ar flaenoriaethau cenedlaethol ac ysgol-gyfan. Mae un eisoes yn cael effaith gadarnhaol wrth godi safonau llythrennedd.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â mwyafrif yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Erys yr angen i fynd i'r afael yn llawn â pherfformiad mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4, rhifedd ar draws y cwricwlwm a datblygu dysgu'n annibynnol. Mae'r materion hyn wedi eu dynodi yn y cynllun datblygu ysgol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid strategol er mwyn gwella safonau a lles y disgyblion.

Caiff cysylltiadau gyda'r rhieni eu gwella drwy gylchlythyr rheolaidd a gwefan. Ceir cysylltiadau da gydag ysgolion cynradd partner a darparwyr eraill. Mae cysylltiadau hynod o greadigol sydd yn cynnwys cynllunio strategol a rhannu adnoddau gydag ysgol uwchradd gyfagos.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r gymuned, yn benodol yn ei wythnos gweithgareddau a'r gweithgareddau o fewn y cwricwlwm amgen. Mae'n gweithio'n gadarn gyda gwasanaethau'r awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Ceir cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr lleol a chydag ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Gweithiodd yr ysgol yn dda gyda'i phartneriaid er mwyn ehangu'r ystod o gyrsiau a gynigir yng nghyfnod allweddol 4 o ran mynd i'r afael â'r cyswllt rhwng anfantais a thangyflawniad. Ceir protocolau cytunedig effeithiol gyda darparwyr eraill er mwyn sicrhau ansawdd. Trwy gydweithio rhagorol gyda darparwyr gwasanaeth trenau, caiff disgyblion eu cludo'n effeithlon i'r ysgol.

Mae'r cynlluniau pontio o ansawdd dda. Cyflawnir parhad yn y dysgu trwy dasgau a rhennir gyda'r ysgolion cynradd partner a'r cyfleoedd a rhoddir i'r rhieni a'r disgyblion i ymweld â'r ysgol cyn dechrau Blwyddyn 7. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i bynciau'r celfyddydau perfformiadol gynnal gweithdai llawn dychymyg ar y cyd gyda'r ysgolion cynradd partner. Mae'r ysgol yn hysbysu ei phartneriaid yn y sector cynradd o'r cynnydd a wnaed gan ei chyn disgyblion.

Rheoli adnoddau: Anfoddhaol

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a chaiff athrawon eu lleoli'n effeithiol i gyflwyno'r cwricwlwm. Maent bron i gyd yn addysgu o fewn eu maes arbenigol. Caiff cynorthwyr cynnal dysgu eu rheoli a'u lleoli'n briodol.

Mae'r ysgol yn dynodi a diwallu anghenion datblygiadol yr holl staff yn dda trwy ystod eang o gyrsiau mewnol ac allanol.

Mae systemau rheoli cyllid yr ysgol yn dda. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn dynodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwariant yn dda ac yn dynodi adnoddau yn unol â'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Caiff effaith yr adnoddau ei adolygu'n gyson gan y pennaeth a'r swyddog gweinyddol.

Bernir fod y gwerth am arian yn anfoddhaol oherwydd y safonau anfoddhaol yng nghyfnod allweddol 4.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3 dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf a'r dangosydd pynciau craidd wedi gwella'n flynyddol. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio ychydig. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y dangosydd pynciau craidd a Chymraeg iaith gyntaf. Yn 2011, o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim, roedd Cymraeg iaith gyntaf yn y chwarter uchaf, gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd yn yr hanner uchaf, mathemateg yn yr hanner waelod gyda Saesneg yn y chwarter isaf. Roedd hwn yn welliant ar berfformiad 2008 pan dim ond gwyddoniaeth oedd yn yr hanner uchaf mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Roedd yr holl o weddill y dangosyddion yn y chwarter isaf. Fodd bynnag, mae Saesneg wedi bod yn y chwarter isaf am y bum mlynedd diwethaf.

Yn 2011, rhoddodd perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd, mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 5 neu uwch yr ysgol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad ar lefel 6 mewn Saesneg wedi codi ac mae bellach fymryn yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae perfformiadau mewn Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth wedi amrywio. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi dirywio. Mae perfformiad mewn tri o'r pynciau craidd wedi bod yn gyson is na chyfartaledd y teulu. Yn 2011, mae mathemateg a gwyddoniaeth yn y chwarter isaf o'u cymharu gydag ysgolion tebyg tra bod Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg yn yr hanner isaf.

Roedd perfformiad ar lefel 5 ag uwch yn yr holl o'r pynciau di-graidd yn well yn 2011 o'u cymharu â 2008. Yn 2011, rhoddodd perfformiad yn y rhan fwyaf o'r pynciau di-graidd yr ysgol yn yr hanner neu'r chwarter isaf o'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim.

Yn 2011, roedd disgyblion wedi gwneud cynnydd arwyddocaol yn y dangosydd pynciau craidd ac wedi perfformio'n well na'r disgwyl mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Roedd cynnydd tebyg hefyd yn amlwg mewn mathemateg. Yn seiliedig ar gyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd cynnydd da iawn yn amlwg mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Roedd cynnydd mewn Cymraeg iaith gyntaf yn is na'r cyfartaledd. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cynnydd o gyfnod allweddol 2 wedi gwella'n sylweddol ac mae bellach yn dda iawn ym mron yr holl ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 3 dros gyfnod o dair blynedd, perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn ar nifer o achlysuron. Fodd bynnag, yn 2010 a 2011, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched yn y dangosydd pynciau craidd. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a pherfformiad y merched. Ar ychydig iawn o achlysuron, perfformiodd y bechgyn yn well na bechgyn yn y teulu ac yn genedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pynciau craidd wedi amrywio'n

sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2011, roedd perfformiad yn y ddau ddangosydd yn is nag oedd yn 2008. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, roeddent yn y chwarter isaf am dair o'r pedair blynedd ac yn is na chyfartaleddau'r teulu dros y cyfnod o bedair blynedd. Yn 2011, roedd perfformiad yn y dangosyddion hyn yr isaf yn y teulu. Roedd perfformiad yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg, yn arwyddocaol is na'r perfformiad disgwylidig yn seiliedig ar brydau ysgol am ddim.

Roedd perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 1 yn is yn 2011 o'i gymharu â 2008. Roedd yn uwch yn y trothwy lefel 2. Roedd ychydig o gwmp yn y sgôr pwyntiau wedi eu capio. Yn 2011, roedd y trothwy lefel 1 a'r sgôr pwyntiau wedi eu capio yn yr hanner isaf, gyda'r trothwy lefel 2 yng nghwarter isaf lefelau perfformiad ysgolion tebyg yn nhermau'r meincnod prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad yn y dangosyddion hyn yn is na chyfartaleddau'r teulu.

Yn ystod 2008-2011, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf, Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg ar lefel 2 wedi amrywio. Yn 2011, roedd canlyniadau yn yr holl o'r pynciau craidd hyn yn is na'r rhai yn 2008. O'u cymharu ag ysgolion tebyg yn nhermau meincnodau prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn y chwarter isaf yn ystod y cyfnod o bedair blynedd a Saesneg am dair blynedd. Roedd perfformiad yn yr holl o'r pynciau craidd bob amser yn is na chyfartaleddau'r teulu. Yn 2011, roedd perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yr isaf yn y teulu.

Yn 2011, yn seiliedig ar gyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, roedd cynnydd yn arwyddocaol is na'r cyfartaledd ac yn arwyddocaol is na'r cynnydd disgwylidig yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. Roedd yn arwyddocaol is na'r cyfartaledd yn y dangosydd pynciau craidd. Roedd cynnydd llawer yn uwch na'r cyfartaledd yn y trothwy lefel 2 ac yn arwyddocaol uwch yn y sgôr pwyntiau wedi eu capio a'r sgôr pwyntiau ehangach. Roedd cynnydd yn y trothwy lefel 1 yn uwch na'r cyfartaledd. Yn gyffredinol, roedd cynnydd o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4 yn arwyddocaol is na'r cyfartaledd yn y dangosyddion hynny oedd yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. Roedd cynnydd yn y dangosyddion hynny oedd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau yn llawer uwch na'r cyfartaledd o'u cymharu gydag ysgolion tebyg yn nhermau meincnodau prydau ysgol am ddim. O'i gymharu â'r teulu o ysgolion, yn yr holl ddangosyddion, roedd cynnydd yn adlewyrchu'r un patrwm â'r ysgolion tebyg.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 3 wedi gwella yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys amrediad eang o gymwysterau. Fodd bynnag, yn y dangosyddion hynny oedd yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg, roedd y cynnydd yn wael.

Yng nghyfnod allweddol 4 dros gyfnod o dair blynedd, perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn ar y rhan fwyaf o achlysuron. Fodd bynnag, yn 2010, perfformiodd y bechgyn yn well na'r merched yn enwedig yn y dangosydd trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg, y dangosydd pynciau craidd a lefel 2 mewn mathemateg. Yn y dangosyddion hynny oedd yn cynnwys ystod eang o

gymwysterau ac yn y pynciau craidd, yn arbennig yn 2010, perfformiodd y bechgyn yn well na bechgyn yn genedlaethol.

Mewn dwy allan o'r tair blynedd, roedd disgyblion cyfnod allweddol 3 oedd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na'r rhai oedd heb yr hawl i brydau ysgol am ddim. Roedd y bwch rhwng y ddau grŵp yn y dangosydd pynciau craidd yn llai na'r bwch yn genedlaethol. Dros gyfnod o dair blynedd, mae disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na disgyblion tebyg o'u cymharu â chyfartaleddau cenedlaethol a rhai'r teulu.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn yr holl ddangosyddion, mae perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim bron bob amser yn is na pherfformiad y rhai sydd heb yr hawl i brydau ysgol am ddim. O'u cymharu â disgyblion tebyg, mae perfformiad disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim bob amser yn is na chyfartaleddau'r teulu yn y dangosyddion oedd yn cynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg. Mewn lleiafrif o achosion, mae'n well o'i gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y mwyafrif o achlysuron ac yn y rhan fwyaf o achlysuron o'i gymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol yn y dangosyddion hynny sydd yn cynnwys amrediad eang o gymwysterau. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn ôl y disgwyl. Mae disgyblion galluog yn tangyflawni mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4.

Dros y tair blynedd diwethaf, gadawodd yr holl ddisgyblion yr ysgol â chymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd Blwyddyn 11. Gwnaeth carfan uchel barhau gyda'u haddysg lawn-amser mewn ysgol, addysg bellach neu mewn hyfforddiant yn eu gwaith. Ni adroddir fod unrhyw ddisgybl Blwyddyn 11 a adawodd yr ysgol ddim mewn addysg, cyflogaeth nac hyfforddiant.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniodd Estyn 55 o ymatebion i holiadur y rhieni. Mae llawer yn rhoi ymatebion cadarnhaol i'r holl gwestiynau. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion hyn yn agos i'r ymatebion cadarnhaol a dderbyniwyd oddi wrth rieni dysgwyr mewn ysgolion uwchradd eraill.

Teimla'r holl rieni caiff eu plant eu cynorthwyo i ymgartrefu'n dda i'r ysgol newydd.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn fodlon gyda'r ysgol lle mae eu plant yn hapus a diogel. Dywed y rhan fwyaf o rieni fod disgyblion yn ymddwyn yn dda, eu plant yn gwneud cynnydd da a'r ysgol yn hysbysu'r rhieni'n dda o'u cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn medru troi at yr ysgol i drafod unrhyw fater. Mae aelodau'r staff yn disgwyl i'r disgyblion rhoi o'u gorau ar bob adeg. Caiff eu plant eu datblygu i ddod yn fwy aeddfed ac ymgymryd â chyfrifoldeb. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn iach ac ymgymryd ag ymarfer rheolaidd. Dywed y rhan fwyaf y rhoddir cyngor da i'w plant wrth iddynt baratoi i symud i'w hysgol nesaf, coleg neu waith.

Dywed llawer o rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod yr addysgu'n dda. Pan roddir gwaith cartref, mae'n briodol. Darperir cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y gofyn.

Mae llawer o rieni yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio gyda chwynion. Caiff disgyblion eu trin yn deg a theimla'r rhieni fod ystod dda o weithgareddau allgyrsiol ar gael.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniodd Estyn ymatebion oddi wrth 86 o ddisgyblion. Nid oes unrhyw wahaniaeth mawr rhwng safbwyntiau'r bechgyn a rhai'r merched. Mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng dysgwyr cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 mewn perthynas â gwaith cartref a sut mae'r ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau. Yng nghyfnod allweddol 3, teimla llawer o'r disgyblion fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith a bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd tua'r mwyafrif o ddysgwyr yn cytuno â'r safbwyntiau hyn.

Mae llawer o'r dysgwyr yn rhoi ymatebion cadarnhaol i bron yr holl gwestiynau. Yn gyffredinol, mae'r ymatebion hyn yn fwy cadarnhaol mewn hanner yr achosion na'r ymatebion a dderbyniwyd gan ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd eraill.

Dywed bron yr holl ddysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a dywed y rhan fwyaf fod nifer o gyfleoedd i ymgymryd ag ymarfer rheolaidd.

Mae gan y rhan fwyaf ddigon o adnoddau ac yn gwneud yn dda. Mae athrawon yn cefnogi disgyblion i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae bob amser rhywun i siarad â nhw os oes unrhyw bryderon. Caiff y rhan fwyaf eu hannog i wneud pethau dros eu hunain

Adroddiad ar Ysgol Ardudwy
Mai 2012

ac i fod yn gyfrifol am weithredoedd eu hunain. Cânt hefyd eu helpu i ddeall a pharchu eraill a chânt eu trin yn deg a'u parchu gan aelodau o'r staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn fodlon â'r modd y cânt eu paratoi ar gyfer bywyd ar ôl ysgol. Derbynia llawer ohonynt gyngor da wrth ddewis cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwybod sut i gadw'n iach.

Teimla llawer fod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau a bod yr ysgol yn delio'n dda gydag achosion o fwllian. Mae llawer o ddysgwyr o'r farn fod ymddygiad yn y dosbarth yn dda a'u bod yn cael llonydd i wneud eu gwaith.

Dywed y mwyafrif o ddysgwyr fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Gwyn Thomas	Arolygydd Cofnodol
Glyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Bethan Whittall	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Siriol Burford	Arolygydd Cymheiriaid
Tudur Williams	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.